# Gwybodaeth am ein cynllun hawl dioddefwyr i adolygiad

**Mehefin 2026**

# Cynnwys


**Cynnwys** ........ **2**
**Beth yw Hawl y Dioddefwyr i Adolygu?** ........ **3**
**Pwy all ofyn am adolygiad?** ........ **3**
**Pryd alla i ofyn am adolygiad?** ........ **3**
**Sut ydw i'n gwneud cais am adolygiad?** ........ **4**
**Beth sy'n digwydd nesaf?** ........ **4**
**Beth sy'n digwydd ar ôl yr adolygiad?** ........ **5**
**Gwybodaeth ac adborth** ........ **5**
**Cysylltiadau defnyddiol** ........ **5**
Cymorth gyda materion cyfreithiol ........ 5
Canolfan Cyngor ar Bopeth ........ 5
INQUEST ........ 5
Cyngor Cyfreithiol Sifil ........ 6
Cymdeithas y Cyfreithwyr ........ 6
Sefydliadau cymorth ........ 6
Gofal Galar Cruse ........ 6
Y Samariaid ........ 6
Brake ........ 6
Goroeswyr Profedigaeth drwy Hunanladdiad ........ 6
Cymorth i Ddioddefwyr ........ 6
Llinell Gymorth y Gymuned Fwslimaidd ........ 6
Llinell gymorth LHDT+ switsfwrdd ........ 7
Gwasanaeth Cwnsela Galar Iddewig ........ 7
Cod y Dioddefwyr ........ 7
Iawndal am anafiadau troseddol ........ 7
**Cysylltwch â ni** ........ **7**

# Beth yw Hawl y Dioddefwyr i Adolygu?

Lansiwyd cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) IOPC yn 2020. Mae'n caniatáu i ddioddefwyr ofyn am adolygiad os ydym wedi gwneud penderfyniad cychwynnol i beidio â chyfeirio adroddiad ymchwiliad at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae'r mathau o benderfyniadau y gellir eu hadolygu o dan y cynllun yn gyfyngedig.

Crëwyd y cynllun VRR mewn ymateb i adborth gan ddioddefwyr. Yn ogystal, yn 2026, rhoddwyd cynllun VRR IOPC ar seiliau statudol gan y Ddeddf Troseddu a Phlismona.

Mae'r daflen hon yn egluro pwy all ofyn am adolygiad, sut i ofyn am adolygiad a beth sy'n digwydd wedyn.

# Pwy all ofyn am adolygiad?

Ar ddiwedd ein hymchwiliad, byddwn yn dweud wrthych os yw'r cynllun VRR yn berthnasol i chi. Gallwch wedyn benderfynu a ddylid gofyn am adolygiad. Mae ein polisi VRR yn cynnwys manylion llawn ynghylch pryd mae'r cynllun yn berthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai bydd rhywun yn gallu gwneud cais am adolygiad ar eich rhan. Efallai bydd angen eich caniatâd ysgrifenedig arnom ar gyfer hyn.

# Pryd alla i ofyn am adolygiad?

Mae'r cynllun VRR yn berthnasol i ymchwiliadau annibynnol, rheoledig a chyfeiriedig. Ar ddiwedd ymchwiliad, byddwn yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r achos at y CPS. Yna mae'r CPS yn edrych ar y dystiolaeth ac yn penderfynu a ddylid cyhuddo unrhyw un o drosedd.

Pan fyddwn yn penderfynu peidio â gwneud atgyfeiriad i'r CPS, mewn rhai sefyllfaoedd, gellir adolygu'r penderfyniad hwn o dan y cynllun VRR.

Mae rhai amgylchiadau lle nad yw'r cynllun VRR yn berthnasol ac nid oes gennych hawl i adolygiad. Mae'r amgylchiadau hyn wedi'u nodi yn ein polisi VRR .

Os gwnaethom atgyfeiriad at y CPS ac yna penderfynodd y CPS beidio â chyhuddo unrhyw un, yna bydd cynllun VRR y CPS yn berthnasol yn lle hynny. Gallwch ddarllen mwy am gynllun y CPS ar eu gwefan.

# Sut ydw i'n gwneud cais am adolygiad?

Gallwch ofyn am adolygiad yn ysgrifenedig, drwy lythyr neu e-bost. Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, neu os nad ydych yn gallu cyflwyno cais yn ysgrifenedig, cysylltwch â ni dros y ffôn a byddwn yn eich helpu.

Mae terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer gofyn am adolygiad. Mae'r terfyn amser o 28 diwrnod yn dechrau o ddyddiad y llythyr byddwn yn anfon yn sôn wrthych am eich hawl i adolygiad.

Nid oes angen i chi esbonio pam eich bod yn gofyn am adolygiad. Fodd bynnag, gallwch gyfleu eich rhesymau wrthym os dymunwch. Rhaid i chi wneud hyn o fewn yr amser a ganiateir fel y gallwn ystyried y wybodaeth hon. Os byddwch yn gofyn am adolygiad ac eisiau rhoi eich rhesymau nes ymlaen, esboniwch hyn pan fyddwch yn gwneud eich cais.

Mewn rhai achosion, efallai byddwn yn gofyn i chi wneud eich cais am adolygiad yn gyflymach. Mae hyn oherwydd bod terfynau amser ar wneud gyhuddiadau am rai troseddau.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cais am adolygiad ar ôl y terfyn o 28 diwrnod. Byddwn yn gwrthod unrhyw geisiadau am adolygiad a wneir fwy na thri mis ar ôl dyddiad ein llythyr yn eich hysbysu am eich hawl i adolygiad.

Os na fyddwn yn derbyn cais am VRR o fewn tri mis, byddwn yn cadarnhau ein penderfyniad arfaethedig ac yn rhoi gwybod i chi.

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Caiff pob cais ei adolygu gan rywun nad oedd ganddo unrhyw gysylltiad uniongyrchol nac unrhyw wrthdaro buddiannau â'r ymchwiliad. Byddant yr un gradd â neu'n uwch na'r person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.

Bydd ein adolygydd yn ystyried yr achos o’r newydd. Byddant yn dod i gasgliad ar:

- a yw ein adroddiad ymchwiliad yn dangos y gallai trosedd fod wedi'i gyflawni gan y person a ymchwiliwyd i'w ymddygiad
- a ddylid cyfeirio'r mater at y CPS

Ein nod yw cwblhau adolygiadau o fewn 28 diwrnod calendr i ddyddiad eich cais, neu'n gynt os oes angen i ni ystyried terfynau amser sy'n effeithio ar gyhuddo. Os bydd unrhyw oedi wrth gwblhau eich adolygiad, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

# Beth sy'n digwydd ar ôl yr adolygiad?

Mae dau ganlyniad posibl i adolygiad:

1. Os nad oes arwydd o drosedd, neu os oes rhesymau i beidio â chyfeirio'r mater at y CPS, bydd y penderfyniad arfaethedig i beidio â gwneud atgyfeiriad at y CPS yn cael ei gadarnhau.
2. Lle mae arwydd y gallai trosedd fod wedi'i gyflawni, byddwn yn ystyried cyfeirio'r achos at y CPS.

Byddwn yn egluro ein penderfyniadau i chi yn ysgrifenedig, neu drwy ddulliau eraill os oes angen cymorth ychwanegol arnoch.

Nid oes hawl i apelio nac adolygu penderfyniad y VRR. Yr unig ffordd i herio canlyniad y VRR yw ceisio adolygiad barnwrol trwy'r llysoedd. Os ydych chi'n ystyried hyn, dylech chi geisio cyngor cyfreithiol.

# Gwybodaeth ac adborth

Os hoffech roi adborth i ni neu os nad ydych yn hapus â'r gwasanaeth a gawsoch gennym, gallwch gysylltu â'n Tîm Cwynion ac Adborth ar 0300 020 0096.

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan am ragor o wybodaeth:
www.policeconduct.gov.uk/cy/contact-us/feedback-about-our-service

# Cysylltiadau defnyddiol

Mae yna nifer o sefydliadau a allai roi cyngor a chefnogaeth i chi.

## Cymorth gyda materion cyfreithiol

### Canolfan Cyngor ar Bopeth

Cymorth gyda phroblemau cyfreithiol. 034 4411 1444
Am eich swyddfa agosaf ewch i: www.citizensadvice.org.uk

### INQUEST

Elusen sy'n gweithio gyda theuluoedd mewn galar yn dilyn marwolaethau yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr i ddarparu cyngor a chymorth cyfreithiol annibynnol, am ddim ac yn gyfrinachol.
020 7263 1111
www.inquest.org.uk

### Cyngor Cyfreithiol Sifil

Cyngor cyfreithiol am ddim os ydych chi'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Mae eu gwefan yn cynnwys offeryn asesu cymhwysedd cymorth cyfreithiol am ddim.
034 5345 4345
www.gov.uk/civil-legal-advice

### Cymdeithas y Cyfreithwyr

Gwybodaeth am gyfreithwyr lleol. 020 7320 5650
https://solicitors.lawsociety.org.uk/

## Sefydliadau cymorth

### Gofal Galar Cruse

Cymorth a chefnogaeth i bobl sy'n delio â phrofedigaeth. 080 8808 1677
helpline@cruse.org.uk
www.cruse.org.uk

### Y Samariaid

Cefnogaeth emosiynol gyfrinachol. 116 123 (ar gael 24 awr)
jo@samaritans.org
www.samaritans.org

### Brake

Elusen diogelwch ffyrdd sy'n cynnig cefnogaeth i bobl sydd wedi colli rhywun neu sydd wedi cael eu hanafu'n ddifrifol oherwydd damweiniau ffordd, a'u gofalwyr.
080 8800 0401
help@brake.org.uk
www.brake.org.uk

### Goroeswyr Profedigaeth drwy Hunanladdiad

Cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad.
030 0111 5065
uksobs.com

### Cymorth i Ddioddefwyr

Elusen genedlaethol sy'n helpu pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddu.
080 8168 9111
www.victimsupport.org.uk

### Llinell Gymorth y Gymuned Fwslimaidd

Cefnogaeth, atgyfeiriadau cwnsela a chymorth ymarferol i aelodau'r gymuned Fwslimaidd.
020 8904 8193 neu 020 9908 6715
ess4m@btinternet.com
www.muslimcommunityhelpline.org.uk

### Llinell gymorth LHDT+ switsfwrdd

Cefnogaeth i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, a'u teuluoedd a'u ffrindiau.
030 0330 0630 (10am i 10pm bob dydd)
chris@switchboard.lgbt
www.switchboard.lgbt

### Gwasanaeth Cwnsela Galar Iddewig

Cwnsela galar cyfrinachol i'r gymuned Iddewig.
020 8951 3881
enquiries@jbcs.org.uk
www.jbcs.org.uk

### Cod y Dioddefwyr

Mae'r Cod Ymarfer llawn ar gyfer Dioddefwyr Troseddau, a gwybodaeth gyhoeddus ategol, ar gael ar-lein ar: www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime

### Iawndal am anafiadau troseddol

Efallai y byddwch yn gallu hawlio iawndal os oeddech yn ddioddefwr trosedd treisgar.
www.gov.uk/claim-compensation-criminal-injury

## Cysylltwch â ni

Ffôn: 030 0020 0096

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: www.policeconduct.gov.uk/cy
X: @policeconduct @IOPC_Help

Cyhoeddwyd Mehefin 2026

© IOPC 2026

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk/cy**
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ni fydd oedi mewn ymateb

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE